Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Camau Creadigol i Sefydliadau

# Nodiadau Cymorth

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Nodiadau cymorth i sefydliadau am y cynnig a'r ffurflen gais ar-lein

Cyn cyflwyno eich cais, byddwch wedi trafod eich syniadau gyda swyddog yn y Cyngor i gael gwybod a ydych yn gymwys i ymgeisio i Gamau Creadigol i sefydliadau a derbyn cyngor pellach (os angen) am beth i'w gynnwys yn eich cais.

Nod Camau Creadigol yw cynnig cefnogaeth hyblyg â ffocws arnoch chi i gymryd y camau nesaf yn eich ymarfer creadigol neu'ch gyrfa greadigol. Bydd angen ichi lenwi ffurflen gais fer ond bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ystyriwn yn eich cynnig prosiect. Dylai'r cynnig ddweud wrthym:

- Am eich sefydliad a'i waith creadigol. Ble rydych chi ar hyn o bryd a ble yr hoffech ei gyrraedd?
- Sut y defnyddiwch yr arian? Beth fydd eich cam cyntaf at gyrraedd eich nod?

Os mai dyma'ch cais cyntaf i Gamau Creadigol, disgwyliwn ichi ddefnyddio eich grant (hyd at £10,000) i adolygu eich sefyllfa bresennol a nodi beth fydd yn rhaid ei wneud i gryfhau gwaith a gwytnwch eich sefydliad. Felly gallai'r agwedd yma ar eich cynnig fod y briff a lunioch i'ch ymgynghorydd neu gynnig eich ymgynghorydd (os nodoch yn barod gyda phwy y gweithiwch). Neu gallwch ganolbwyntio ar gomisiynu rhagor o ymchwil neu gael cymorth targedol ichi allu ymgeisio am grant mawr.

Os ymgeisiwch am ragor na £10,000O, efallai y canolbwyntio'r agwedd yma'n bennaf ar eich camau nesaf a ddaeth o adolygiad neu ymchwil flaenorol. Cynhwyswch: Sut yr hoffech symud y gwaith yma ymlaen dros gyfnod o hyd at dair blynedd i gynyddu gwytnwch a sefydlogrwydd eich sefydliad?

- Dywedwch wrthym y canlynol: yn eich sefydliad neu'r tu allan, pwy fydd yn cyflwyno'r prosiect? Pa waith fydd pawb yn ei wneud a pha sgiliau a phrofiad a gyfrannwch? O ran pobl allanol, a ydych wedi'u dewis a pham neu sut y byddwch yn eu dewis?
- Sut y penderfynwch a gyrhaeddoch eich nod?

Gall eich swyddog yn y Cyngor gynnig cyngor am lunio eich cynnig ac edrych dros ddrafft ysgrifenedig cyn ichi ei gyflwyno drwy ein porth.

Os ydych yn ymgeisio am hyd at £10,000, gallwch ysgrifennu eich cynnig neu ei gyflwyno ar ffurf sain neu fideo. Ar y mwyaf bydd yn 2 ochr o A4 neu 8 munud o sain neu fideo. Os hoffech gyflwyno ar ffurf sain/fideo, cliciwch yma am gyngor.

Os ydych yn ymgeisio am ragor na £10,000, bydd eich cynnig fel uchod ond bydd eich swyddog yn eich cynghori ar ba wybodaeth arall i'w chynnwys. Dibynna ar y math o brosiect a gynigiwch, yr arian a geisiwch a'r gwaith a wnaethoch â'ch grant Camau Creadigol cyntaf ond gallai gynnwys:

- swydd ddisgrifiadau o'r swyddi a nodwch
- briff i unrhyw waith ymgynghori pellach
- unrhyw gynllun busnes amlinellol y gallech fod wedi'i ddatblygu fel rhan o'ch grant cyntaf
- llif arian i gefnogi eich cyllideb

## Cais ar-lein – pa gwestiynau fydd angen i mi eu hateb?

### 1. Gwiriadau cyn ymgeisio

Gwybodaeth ragarweiniol a rhestr wirio cyn ymgeisio.

### 2. Sut i gysylltu â chi

Pwy i gysylltu ag ef am y cais, gan gynnwys eich dewis iaith a gwybodaeth am gyfrif banc.

### 3. Eich prosiect

Y brif wybodaeth am eich prosiect (teitl, dyddiad cychwyn a gorffen, cyllideb fras a chostau hygyrchedd).

### 4. Cynnig prosiect

Yma rhowch grynodeb o'ch prosiect. Efallai y defnyddiwn y wybodaeth mewn cyhoeddusrwydd am eich prosiect. Mae lle i 480 nod ar y mwyaf gan gynnwys gwagleoedd.

### 5. Celfyddyd

Yr ystod o weithgarwch celfyddydol sydd yn eich project.

### 6. Mathau o weithgarwch

Y math o weithgarwch yn eich prosiect.

### 7. Targedau

Beth yw targedau eich prosiect arfaethedig, gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau, gweithdai, cynulleidfaoedd/mynychwyr?

### 8. Iaith

Yr effaith a gaiff eich prosiect ar y Gymraeg: Cadarnhaol, Negyddol, neu Niwtral

### 9. Lleoliad

Ble bydd eich prosiect yn digwydd?

### 10. Cydraddoldeb

Beth yw'r wybodaeth am fonitro cydraddoldeb ar gyfer eich prosiect?

### 11. Ailddarllen eich cais

Gallwch weld eich cais ar ei hyd yma. Darllenwch ef yn ofalus a'i newid os oes angen.

### 12. Gwiriad cyn cyflwyno

**Pwysig: ar ôl clicio'r botwm 'Nesaf' isod, ni allwch newid unrhyw wybodaeth yn yr adrannau blaenorol.**

Yma gwelwch grynodeb o'ch gwybodaeth. I newid eich atebion, cliciwch ar y botwm 'Blaenorol' ar waelod y dudalen i fynd yn ôl i'r tab adolygu.

### 13. Dogfennau ategol

Uwchlwythwch eich cynnig prosiect a'ch cyllideb. Gall eich cyllideb fod mewn fformat Word, excel neu pdf. Mae templed cyllidebol ar gael ar ein gwefan.

### 14. Datganiad a chyflwyno eich cais

Darllenwch y datganiad a chyflwynwch eich cais

## Angen cysylltu â ni?

Am gyngor am eich cais Camau Creadigol, cysylltwch â'ch swyddog neu e-bostiwch: camaucreadigol@celf.cymru

Os cewch broblemau technegol gyda'r ffurflen neu'r porth, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru

## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal a chroesawn geisiadau gan bawb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd eich dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR